

Datganiadau Ariannol 2024/25

Cyflawni ein cynlluniau beiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer twf

valleystocoast.wales
0300 123 2100
customervoice@v2c.org.uk



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

O Llanw



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Amdanom Ni

Prif Weithgareddau


Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cynnwys Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf a Gwasanaethau Eiddo Llanw Cyf, y cyfeirir atynt fel y Grŵp.

Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig yn sefydliad nid-er-elw, sy'n gweithredu â rheolau elusenol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, y cyfeirir ato fel y Gymdeithas. Mae wedi'i chofrestru fel Cymdeithas Gofrestredig ac fe'i llywodraethir gan Fwrdd taliadau.

Mae Gwasanaethau Eiddo Llanw Cyf yn gwmni preifat, sy'n gyfyngedig drwy gyfranddaliadau, ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Prif weithgarwch y cwmni yw darparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw.

Heddiw, mae'r Grŵp yn darparu gwasanaethau rheoli, cynnal a chadw a gwella i 6,154 o gartrefi o wahanol fathau, gan gynnwys tai anghenion cyffredinol (5,909), rhenti canolraddol (46) a thai â chymorth (199). Mae gan y Grŵp hefyd 12 o gartrefi y mae pobl wedi'u prynu am gost is, sef ein heiddo perchentaeth cost isel.

Mae'r Grŵp hefyd yn darparu gwasanaethau rheoli ar gyfer 641 eiddo llesddaliadol ac 89 eiddo rhydd-ddaliadol. Mae gennym hefyd 816 garej, a 49 adeilad masnachol sy'n helpu i gefnogi cymunedau a'n hymrwymiad cadarn i greu lleoedd.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Amdanom Ni

Ein Pwrpas, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd



Ein Pwrpas

Darparu cartrefi a
lleoedd lle mae pobl
yn teimlo'n ddiogel
ac yn hapus.



Ein Gweledigaeth

Helpu i greu
Pen-y-bont ar Ogwr
a Chymru well.



Ein Gwerthoedd

Gwerthfawrogi Pobl:

Rydym yn gweld y
potensial mewn pobl, y
rhai rydym yn gweithio
gyda nhw a'r rhai rydym
yma i'w gwasanaethu.

Meddwl yn Wahanol:

Rydym yn rhoi cynnig
ar bethau newydd i
wella bywydau a
gyrfaoedd pobl.

Y Dewrder i Ddal Ati:

Rydym eisiau'r gorau
i ni ein hunain, ein
cydweithwyr, a'n
cwsmeriaid, felly rydym
yn siarad, yn gweithio
ac yn gweithredu
gydag argyhoeddiad,
cryfder a
phenderfynoldeb.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Gair gan ein Prif Weithredwr Grŵp a'n Cadeirydd

Rhagair

Mae cyrraedd fy mhumed flwyddyn fel Prif Weithredwr yn gyfle i ddathlu ein llwyddiannau ac edrych ymlaen at y bennod nesaf o'n cynllun corfforaethol, ein cyfnod twf beiddgar ac uchelgeisiol. Rydym yn teimlo'n gyffrous i ehangu ein gwasanaethau, gwella profiad y cwsmer, a mynd i'r afael ag anghenion tai ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, llwyddom i drosglwyddo i strwythur grŵp a lansio Llanw, ein his-gwmni atgyweirio, gan wneud dros 26,000 o atgyweiriadau a chyflawni cyfradd boddhad cwsmer o 90% ar ôl cwblhau'r gwaith. Rydym wedi adeiladu 71 o gartrefi newydd i deuluoedd ac unigolion, wedi gosod ein heiddo cyntaf y tu allan i'r fwrdeistref, ac wedi codi ein lefelau boddhad cwsmer mewn sawl maes allweddol o'n gwasanaethau.

Dyma yw ein prif gymhelliad, nawr ac am byth. Rydym eisiau bod yn well o ran sicrhau boddhad ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr. Ac felly eleni, bu'n bleser gennyf gael amlinellu ein cynlluniau

beiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer twf yn ein model gweithredu newydd.

Dan arweiniad pum strategaeth biler a thîm arwain newydd, byddwn yn ehangu'r gwasanaethau a gynigiwn ac yn adeiladu cymunedau a lleoedd rhagorol lle mae ein cwsmeriaid yn ddiogel, yn hapus ac yn teimlo eu bod yn perthyn – gan godi'r safon a meddwl yn wahanol ynghylch sut rydym yn cyflawni ein diben a'n gweledigaeth i helpu i adeiladu Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru well.

Ein cydweithwyr ymroddedig sy'n gwneud popeth yn bosibl, gan ddangos ymrwymiad diysgog bob dydd, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gweithredu dan amgylchiadau heriol, a phob amser yn rhoi ein cwsmeriaid wrth galon popeth.

Yn yr adroddiad hwn fe welwch enghreifftiau o sut rydym wedi gweithio gyda'n cymunedau i greu newid cadarnhaol. Fodd bynnag, gwyddom fod angen i ni wneud mwy, ac rydym yn cydnabod yr angen i ehangu ein cyrhaeddiad a'n gallu i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am dai a gwella ansawdd ein cartrefi.

Yn ddiamau, bydd y daith o'n blaenau'n dod â heriau newydd, ond mae ein hyblygrwydd profedig, llywodraethiant rhagweithiol, ac ymroddiad diysgog ein cydweithwyr yn cynnig sylfaen gadarn i

wynebu'r heriau hyn yn uniongyrchol. Bydd ein hymdrech gyffredin i gynnwys cwsmeriaid a chydweithwyr yn ein proses benderfynu'n sicrhau cynnydd parhaus tuag at Gymru lle mae gan bawb fynediad at gartref diogel a hapus.

Cofion cynnes,



Jo Oak
Prif Weithredwr y Grŵp



Amanda Davies
Cadeirydd y Bwrdd



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Cipolwg ar y Flwyddyn



Cafodd 256 o deuluoedd oddi ar restr dai Pen-y-bont ar Ogwr eu cartrefu.



Cafodd 855 o gwynion eu datrys.



Adeiladwyd 44 o gartrefi newydd (pob un i safon EPC A) a **chaffaelwyd 38**.



Gwariwyd £18.9 miliwn ar adeiladu a phrynu cartrefi ac **£11.3** miliwn ar fuddsoddi yn ein cartrefi presennol.



Croesawyd 36 o gydweithwyr newydd i Cymoedd i'r Arfordir a **26** i Llanw.



Cwblhawyd dros 26,000 o atgyweiriadau yn ein cartrefi.



98.8% o'n cartrefi'n dal i gydymffurfio â'r rheoliadau nwy.



99.42% o'n cartrefi'n dal i gydymffurfio â'r rheoliadau trydan.



Mae gan **79.6%** o'n cartrefi dystysgrif EPC.



Mae gan Cymoedd i'r Arfordir **1 prentis** ac roedd gan Llanw **6 phrentis**.



Buddsoddwyd £33,072 yn ein cymunedau trwy fuddion cymunedol.



£150,000 o gronfa cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer gwelliannau seilwaith gwyrdd ym Mlaencaerau.



£213,000 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.



£72,000 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru ar gyfer dwy goedwig fechan ym Marlas a Chefn Glas.



Symudodd **15 o gydweithwyr Cymoedd i'r Arfordir** a **2 o gydweithwyr Llanw** ymlaen i rôl newydd.



£8,000 o Gyllid Ffyniant Bro CBSP i gyflenwi a gosod ffens newydd ar gyfer Canolfan Gymunedol Wildmill ac ail-baentio murluniau'r isffordd yn Wildmill.



Cafodd 550,000 metr sgwâr o fannau gwyrdd eu cynnal.



Sicrhawyd gwerth **£500,000** o hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn i gydweithwyr, a gwariwyd **£239,984** ar ddatblygu cydweithwyr.



Mae **24.37%** o gydweithwyr **Cymoedd i'r Arfordir** a **18.75% o gydweithwyr Llanw** yn byw'n lleol (gyda chod post CF31).



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Sylwadau ein Cwsmeriaid

"Y gweithiwr gorau dwi wedi'i gael yn y tŷ. Gwnaeth y gwaith ar unwaith, roedd yn garedig ac yn gwrtais iawn, a rhoddodd wybod am waith arall oedd angen ei wneud yn fy nghartref. Dyn mor barod ei gymwynas."

"Cymwynasgar iawn - cyflawnodd y gwaith, a gwnaeth joban fach arall i mi tra roedd."

"Dw i jest eisiau diolch i chi, Annabell, am y ffordd broffesiynol ond hawddgar y gwnaethoch chi fy helpu i'n ddiweddar."

"Mae Charlena wedi bod yn gydymdeimladol a chefnogol. Roedd ei phroffesiynoldeb wedi creu argraff arna i. Alla i ddim ei chanmol hi ddigon am yr hyn y mae wedi'i wneud a sut y mae wedi fy helpu i. Diolch Charlena."

"Aelod o staff sy'n barod i helpu, yn amyneddgar, yn gwrtais ac effeithlon - dim llanast ar ei ôl. Ac roedd yn wych am nodi'r broblem a'i thrwsio ar yr ymweliad cyntaf. 5 seren, diolch."

"Gweithiwr clên iawn. Effeithlon iawn, a gwnaeth joban wych. Rwy'n hapus iawn gyda'r canlyniad."



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydweithwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach – Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom lansio Llanw, cwmni atgyweirio a chynnal a chadw eiddo, ar ôl i gwsmeriaid ddweud wrthym nad oedd ein gwasanaeth atgyweirio'n cyflawni. Drwy sefydlu is-gwmni yr oeddem yn berchen yn llwyr arno, roedd ein nod yn syml: darparu gwasanaeth atgyweirio mwy ymatebol i gadw ein cwsmeriaid yn ddiogel a hapus.




Felly, sut mae pethau'n mynd?

- Rydym wedi ymestyn ein horiau gweithio wythnosol o 37 i 40 er mwyn cwblhau mwy o dasgau a bodloni argaeledd cwsmeriaid.
- Rydym wedi cyflwyno "Dydd Gwener Adborth", lle rydym yn gofyn i gwsmeriaid sydd wedi mynegi anafodlonrwydd i ddweud wrthym sut allwn wella.
- Rydym wedi creu Hwb Atgyweirio pwrpasol o fewn ein Tîm Gwasanaethau Cwsmer, sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol a chyflym dros y ffôn.
- Rydym yn cynnig apwyntiadau atgyweirio hyblyg, gan gynnwys slotiau ar benwythnosau.

Yr effaith ar ein cwsmeriaid:

- Gwnaethom 26,000 o atgyweiriadau yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu, a chwblhawyd 92.5% o'r rhain ar yr ymweliad cyntaf.
- Mae 90% o gwsmeriaid yn fodlon â'r atgyweiriadau rydym wedi'u cwblhau hyd yma, gan ddweud wrthym ein bod yn gwneud yn well.
- Mae cwynion cwsmeriaid wedi gostwng o 174 i 104.
- Mae'r amser mae'n cymryd i ddelio â galwad wedi cwtogi dros ddau funud, sy'n dyst i'r cynnydd yng ngwybodaeth a hyder ein tîm.

- Bu'n flwyddyn gyntaf lwyddiannus ac rydym yn gweithio'n galed i barhau ar y llwybr hwn.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Cartrefi Diogel a Hapus

Lleoedd Diogel a Hapus

Cydweithwyr Diogel a Hapus

Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Gwasanaeth atgyweirio sy'n gweithio i bawb

Mae sicrhau bod ein cwsmeriaid yn teimlo'n gyfforddus a'n bod ni'n ystyried eu hanghenion pan fyddwn yn ymweld â nhw yn eu cartrefi yn hynod bwysig i ni. Gwyddom fod profiad personol pawb yn unigryw, ac rydym eisiau cynnig gwasanaeth sy'n wirioneddol ystyried beth mae pob unigolyn ei angen gennym.

Gyda hyn mewn golwg, aethom ati i wahodd cwsmeriaid i sesiynau lle buont yn rhannu straeon teimladwy am eu bywydau personol a'u profiadau. Roedd hi'n anodd gwrandao ar rai ohonynt, ond gwyddom y bydd gwrandao ar bobl yn ein helpu ni i wella ein rhyngweithiadau cwsmer.



Dyma rai o'r pethau y dywedodd y cwsmeriaid y gallent eu gwneud i wella:

"Paratowch yn well pan fyddwch yn ymweld â chartref rhywun ag anabledd."

"Eglurwch wrtha i yr hyn rydych yn ei wneud yn ystod y gwaith atgyweirio gan na allaf weld y cynnydd oherwydd fy ngolwg."

"Peidiwch â gadael unrhyw geblau llac o gwmpas rhag i mi faglu gan fod gennyf nam ar fy ngolwg."

"Cysylltwch â ni cyn i'r gwaith ddechrau, er mwyn i mi gael gwybod pryd i'ch disgwyl."

"Byddwch yn gwrtais a dewch â'ch ffordd unigryw chi o weithio."

Rydym hefyd wedi treulio'r flwyddyn yn gofyn i gwsmeriaid am eu gwybodaeth ddiweddaraf, fel y gallwn fod yn barod ar gyfer pob ymweliad cwsmer. Gwnaethom gyflwyno menter taro ar ddrysau EDI (Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant) er mwyn holi cymaint o gwsmeriaid â phosibl am eu hanghenion unigol. Bydd casglu'r math yma o wybodaeth ac adborth yn rheolaidd yn ein helpu ni i ddarparu gwasanaeth mwy personol.



Cliciwch i weld



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Cartrefi Diogel a Hapus

Lleoedd Diogel a Hapus

Cydweithwyr Diogel a Hapus

Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Sioe Deithiol Atgyweiriadau



Eleni, gofynnem i gwsmeriaid beth roedden nhw'n awyddus i ni gyfathrebu mwy yn ei gylch ac roedd yr ateb yn glir fel cloch – atgyweiriadau.

Er mwyn rhoi cyfle i gwsmeriaid siarad â'n tîm wyneb yn wyneb am eu hatgyweiriadau, aethom ati i gyflwyno ein Sioe Deithiol Atgyweiriadau gyntaf.

Teithion ni i Faesteg, Corneli, Betws a Chefn Glas i gefnogi cynifer o gwsmeriaid â phosibl. Daeth tua 100 o gwsmeriaid i gyd, a gwnaethom eu helpu i roi gwybod am atgyweiriad neu i dderbyn diweddariad amdano.

Roedd cydweithwyr o'r timau rhent, diogelwch cartref a datblygiadau newydd hefyd wrth law i ymgysylltu â chwsmeriaid a thrafod eu hymholiadau.

Mae cynyddu ein presenoldeb yn y gymuned drwy ddigwyddiadau yn helpu cwsmeriaid i deimlo'n hyderus i ddod atom, a chawsom adborth calonogol yn dilyn y sesiynau:

“Roedden nhw'n gwneud mwy o synnwyr am fy atgyweiriadau i draw yno heddiw—chwarae teg iddyn nhw.”

“Gwych, mae eich crefftwyr chi bob amser yn wych.”

Dyma ragor o eiriau a ddefnyddiodd y rhai a oedd yn bresennol i ddisgrifio'r digwyddiad:

“Cymwynasgar”
“Gobeithiol”
“Diddorol”
“Prysur”
“Digwyddiadol”

Yr hyn mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud am ein gwasanaethau

Caiff yr arolwg STAR ei gynnal gan bob landlord cymdeithasol cofrestredig (RSLs) yng Nghymru i ddeall sut mae cwsmeriaid yn teimlo am eu gwasanaethau.

Rydym yn ddiolchgar i'r 700 cwsmer bron a rannodd eu barn â ni ac rydym yn falch o weld sgoriau boddhad yn codi mewn wyth maes. Fodd bynnag, mae lle i wella bob amser, ac mae adborth cwsmeriaid wedi dangos i ni ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion. O gymharu â'n canlyniadau ar gyfer 2022, dywedodd cwsmeriaid wrthym eu bod yn fwy bodlon ynghylch:

- Y ffordd rydym yn rheoli'r gwasanaethau a ddarparwn – 58% yn fodlon (cynnydd o 6%).
- Eu cymdogaeth fel lle i fyw – 82% yn fodlon (cynnydd o 6%).
- Teimlo'n ddiogel yn eu cartref – 80% (cynnydd o 5%).
- Cyfleoedd i gefnogi ein proses benderfynu – 59% (cynnydd o 5%).
- Ein dull o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol – 59% yn fodlon (cynnydd o 3%).
- Eu ffydd ynom ni fel landlord – 65% yn fodlon (cynnydd o 2%).
- Taliadau gwasanaeth fel gwerth am arian – 63% yn fodlon (cynnydd o 1%).
- Rhent fel gwerth am arian – 76% (cynnydd o 1%).



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Cartrefi Diogel a Hapus

Lleoedd Diogel a Hapus

Cydweithwyr Diogel a Hapus

Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Cwsmeriaid Diogel a Hapus

Meysydd lle gallwn wneud yn well:

- Ein gwasanaeth atgyweirio yn gyffredinol – 59% yn fodlon (gostyngiad o 5%).
- Ansawdd ein cartrefi – 69% yn fodlon (gostyngiad o 4%).
- Ein gwasanaethau yn gyffredinol – 68% yn fodlon (gostyngiad o 1%).
- Sut rydym yn gwrando ac yn gweithredu ar farn pobl – 52% yn fodlon (gostyngiad o 1%).

Rydym yn cymryd y canfyddiadau hyn o ddifrif ac wedi cyflwyno'r mentrau canlynol i fynd i'r afael â'r adborth:

- 'Dydd Mawrth Dweud' – mae ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yn gwneud galwadau rhagweithiol i gwsmeriaid sydd wedi dweud eu bod yn hapus i ni gysylltu â nhw, er mwyn deall mwy am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a ble mae angen i ni wella.



Cliciwch i weld

- Dan arweiniad ein Bwrdd Rhagoriaeth Cwsmeriaid newydd, mae tri is-grŵp wedi'u ffurfio i ymchwilio'n ddyfnach i'r meysydd lle mae ein boddhad wedi gostwng, gan edrych ar y prif ffactorau sy'n achosi anfodlonrwydd a sut allwn ni wneud yn well.

- Trwy ein Hymrwymiad Llais y Cwsmer newydd ac Ymgynghra 'A fi hefyd!', byddwn yn darparu ystod eang o gyfleoedd i gwsmeriaid roi mwy o fewnwelediad i ni, gan ein galluogi i glywed a dysgu o'u profiadau, a chydweithio i wella ein gwasanaethau.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydweithwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach – Cartrefi Diogel a Hapus

Cartrefi Diogel a Hapus

Mae pawb yn haeddu cartref diogel a sicr, ond yn nhirwedd tai heriol heddiw, mae'r angen am gartrefi boddhaol a fforddiadwy yn cynyddu.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu cartrefi fforddiadwy o safon sy'n sylfaen i fywyd hapus. Dyma rai o'n datblygiadau diweddar rydym yn arbennig o falch ohonynt:

Heol Y Groes, Pencoed: Trosglwyddwyd **24 o gartrefi** i gwsmeriaid newydd.

The Malthouse, Pencoed: Trosglwyddwyd **6 chartref** i gwsmeriaid newydd.

Clwb Cymdeithasol Betws: Dechreuodd y gwaith ym mis Gorffennaf 2024 a bydd yn darparu **20 o gartrefi ar gyfer cwsmeriaid yn y dyfodol**.

Ehangu y tu allan i'r fwrdeistref

Mae'r eiddo wedi'u lleoli yn Michael's Grove a Morgan's Walk, ac maent yn rhan o ddatblygiad mawr yn Llanharan gyda chysylltiadau agos â chanol y ddinas a chefn gwlad Cymru.

Ymwelodd Jayne Bryant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, â'r

datblygiad newydd i weld drosti ei hun sut mae cyllid arloesol yn ein helpu i ddarparu tai fforddiadwy.

Dywedodd Jayne:

“Mae'r cartrefi yma yn Michael's Grove yn enghraifft berffaith o wir bŵer y math hwn o gyllid i ddarparu cartrefi hardd sy'n fforddiadwy i'w rhedeg ac sy'n cyfoethogi ein cymunedau.”



Buddsoddiad o £30.2 miliwn yn ein cartrefi

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom fuddsoddi £18.9 miliwn i hwyluso'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, fforddiadwy a chynaliadwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fe wnaethom hefyd fuddsoddi £11.3 miliwn i wella ein

stoc dai, gan sicrhau bod ein cartrefi'n ddiogel, yn gynnes ac yn gyfforddus.

Mae'r prif welliannau'n cynnwys gosod 155 o doeau newydd, cwblhau 57 o brosiectau trydanol, a gosod 50 o geginau newydd ac 17 o ystafelloedd ymolchi newydd. Hefyd, gosodwyd 132 o Ddrysau Tân FD30S a 94 o foeleri newydd i gadw cartrefi'n gynnes.

Mae wedi bod yn galonogol derbyn adborth cadarnhaol ar ôl gwneud y math hwn o atgyweiriadau, gan gynnwys sylwad diweddar gan gwsmer ar ôl i ni drwsio ei ddrws:

“Cefais hysbysiad cyn iddo gyrraedd, sy'n bwysig iawn i mi. Cynhaliodd wiriad trylwyr o fy nrws, daeth o hyd i'r problemau a'u trwsio. Proffesiynol iawn ac rwy'n hapus iawn gyda safon y gwaith a wnaed, a hynny i gyd mewn cyfnod byr iawn. Diolch.”

Rydym wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion amrywiol ein cwsmeriaid, a gwella eu cyfforddusrwydd a'u bywyd beunyddiol.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydweithwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Cartrefi Diogel a Hapus

Mae ein buddsoddiad o £737,003 mewn addasiadau wedi cefnogi pobl ag anghenion ychwanegol, gan gwmpasu cyfanswm o 317 o dasgau. Mae hyn yn cynnwys gwaith mwy o faint fel addasiadau ystafell wlyb neu gawod, rampiau, lifftiau grisau, reiliau galfanedig allanol, seiliau caled, addasiadau cegin, a thoiledau golchi/sychu, gyda'r addasiadau sy'n weddill yn cynnwys ystod eang o newidiadau, o reiliau gafael, seddi cawod, a chanllawiau grisau, i ledw drysau a gosod ffensys.

Dyfyniad gan gwsmer:

"Ers i'r canllaw gael ei osod mae wedi bod yn wych, ac mae'r lifft grisau'n fendigedig. Mae gen i fy ngwely yn ôl! Alla i ddim credu pa mor gyfforddus yw popeth."





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydwethwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilywyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Lleoedd Diogel a Hapus

Lleoedd Diogel a Hapus

Mae mannau awyr agored diogel a hygyrch yn hanfodol i greu cymunedau llewyrchus a gwella llesiant ein cwsmeriaid.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned i weddnewid mannau awyr agored, clirio ein strydoedd, ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o grewyr lleoedd. Dyma rai o'r prosiectau cyffrous rydym wedi'u hadfer.

Tyfu er Daioni

Mae Tyfu er Daioni yn brosiect hirdymor, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar dyfu bwyd, dal carbon ac ymgysylltu â'r gymuned.

Yng ngham cyntaf y prosiect, boom yn gweithio ochr yn ochr â phreswylwyr i weddnewid mannau cymunedol nad oedd fawr o ddefnydd ohonynt mewn ffordd effeithiol.

Ochr yn ochr â chwsmeriaid, preswylwyr a dwy ysgol gynradd, plannwyd dwy goedwig fechan - un yn Heol-y-Frenhines a'r llall ger Yr Ynys ar Stad Marlas. Bydd y 2,400 o goed a blannwyd yn helpu i hybu bioamrywiaeth, gwella ansawdd yr aer, a dod â buddion iechyd meddwl i bobl leol.



[Cliciwch i weld](#)



[Cliciwch i weld](#)

Hefyd, aethom ati i greu tair gardd gymunedol yn Heol-y-Frenhines, Wildmill a Blaencaerau er mwyn rhoi lle i breswylwyr dyfu bwyd iachus gyda'i gilydd a chysylltu â'u cymdogion.



Cawsom adborth calonogol hyd yma, ac ysgrifennodd un preswilydd lleol y canlynol ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar:

“Mae un syniad bach wedi ffynnu'n ddau brosiect gwych. Alla i ddim aros i weld y coedwigoedd a'r gerddi'n tyfu. Fyddai hyn i gyd wedi bod yn amhosibl heb Cymoedd i'r Arfordir a'r staff hyfryd rydym wedi bod yn siarad â nhw amdano, ac sydd wedi bod yn gwneud y gwaith y tu ôl i'r llenni.”

Dywedodd preswilydd arall o Gefn Glas, sy'n defnyddio sgwter symudedd, wrthym sut mae'r gwelyau uchel yn hygyrch ac yn **“union beth sydd ei angen arni”** i'w galluogi i barhau â'i hobi o arddio.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanomom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydwethwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Lleoedd Diogel a Hapus

Dod yn hwb casglu sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus

Ym mis Mawrth 2025, daethom yn hwb casglu sbwriel swyddogol i Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n golygu y gall y trigolion gael benthyg offer angenrheidiol gennym i gynnal sesiwn lanhau yn ddiogel yn eu hardal yn ddi-gost. Aethom ati i arwain pum sesiwn casglu sbwriel cymunedol ym Mracla, Sarn, Wildmill, Betws a Marlas yn ystod ein hwythnos lansio.

Roedd effaith y sesiynau casglu sbwriel yn llawer mwy na'r 60 bag o sbwriel a gasglwyd gennym; mae'r digwyddiadau hyn yn caniatáu i ni ddod â phobl at ei gilydd a meithrin ysbryd cymunedol. Roedd un cwsmer, Andrew, sy'n byw gydag iselder a gorbryder, yn chwilio am ffordd i ailgysylltu â'r gymuned a gweithio tuag at ddychwelyd i gyflogaeth.

Dywedodd:

"Roeddwn i'n meddwl bod y prosiect yn ddefnyddiol iawn i'r gymuned leol, gan ddod â thrigolion yn nes at ei gilydd. Roeddwn i eisiau cymryd rhan er mwyn helpu fy hyder a'm gorbryder, ac i ddechrau cwrdd â phobl eto. Mae'r tri diwrnod diwethaf wedi bod

yn llethol i mi wrth gwrdd â phobl newydd, ond mae wedi bod yn llwyddiant."



Cyflwyno Dydd Mercher Crwydro

Mae Dydd Mercher Crwydro yn ymwneud â chael ein cwsmeriaid allan o'u cartrefi, i gyfarfod â ni yn eu cymunedau a dweud wrthym am yr hyn maen nhw'n ei garu am eu hardal a'r hyn y gallent ei wella.

Cynhaliwyd ein Dydd Mercher Crwydro cyntaf yn Wildmill – cerddodd pedwar grŵp ymroddedig o amgylch y stad, gan nodi problemau a syniadau ar gyfer gwelliannau. Bydd yr adborth llawr gwlad hwn yn hynod werthfawr i'n helpu ni i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol gyda chynllun gweithredu cymunedol pwrpasol.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydweithwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach – Cydweithwyr Diogel a Hapus

Cydweithwyr Diogel a Hapus

Rydym yn meithrin diwylliant hapus a chefnogol trwy gynnig trefniadau gwaith hyblyg, buddsoddi yn natblygiad cydweithwyr trwy hyfforddiant, a dathlu eu cyfraniadau gydag enwebiadau am wobrau, a digwyddiadau.

Ffyrdd newydd o weithio

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle modern a chynhwysol trwy gynnig patrymau gwaith hyblyg ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus o "bythefnos naw diwrnod" i gydweithwyr yn y swyddfa, rydym yn falch o barhau â'r trefniant hwn ar sail fwy parhaol i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan. Rydym hefyd yn treialu pythefnos naw diwrnod i'n cydweithwyr crefft eleni.

Mae'r ffyrdd arloesol hyn o weithio yn caniatáu i gydweithwyr dreulio mwy o amser gyda'u hanwyliad neu gymryd rhan mewn hobiau, wrth hefyd gefnogi ein hamcan strategol o ddod yn gyflogwr o ddewis ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r cyffiniau.

Hyrwyddo tegwch a chynhwysiant

Rydym yn falch o fod yn cymryd camau sylweddol i hyrwyddo tegwch, amrywiaeth, a chynhwysiant (EDI) o fewn ein sefydliad. Mae ein Swyddog Cefnogi Prosiect wedi sefydlu Caffi Menopos a Pherimenopos cefnogol sydd wedi lleihau teimladau o unigrwydd ymhlith cydweithwyr, ac wedi hwyluso rhaglen boblogaidd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac Ymwybyddiaeth o Fyddardod i dros 85 o gydweithwyr.



Trwy ein Fforwm EDI, rydym yn cael sgwrsiau ystyrlon am degwch ac amrywiaeth ac rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y swyddfa.

Rydym hefyd wedi gwneud mwy o ymdrech i ymgorffori dyddiau ymwybyddiaeth cenedlaethol yn feddylgar yn ein cyfathrebiadau mewnol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein cydweithwyr.

Dywedodd un cydweithiwr wrthym yn ddiweddar:

"Fel Mwslim, rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr ymdrech i gydnabod a chefnogi Ramadan ac Eid. Mae'n golygu llawer i weld ein cwmni yn meithrin cynhwysiant a dealltwriaeth."

Rhestr Fer Ddwbl yng Ngwobrau Tai Cymru – a buddugoliaeth i Llanwl!

Roeddem yn falch bod ein hymroddiad wedi'i gydnabod gyda dau enwebiad ar y rhestr fer yng Ngwobrau Tai Cymru 2024.

Cafodd ein Tîm Incwm Cymunedol ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Tîm Tai y Flwyddyn, i gydnabod eu dull rhagweithiol o ragweld yr heriau y gallai ein cwsmeriaid eu hwynebu, fel effaith dileu'r Taliad Tanwydd Gaeaf ar gwsmeriaid hŷn. Mewn ymateb, datblygwyd prosiect ganddynt i helpu'r rhai dros oedran pensiwn y wladwriaeth i reoli eu rhent yn ystod y misoedd oerach.

Yn ogystal, cafodd y Partner Tai Cymunedol Louisa Thomas ei rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Cyflawnwr Ifanc ym Maes Tai. Pan effeithiodd llifogydd ar gartrefi ym Mhen-y-bont ar Ogwr y llynedd, cymerodd hi'r awenau, gan ymweld a siarad yn bersonol â phob



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
[Cydweithwyr Diogel a Hapus](#)
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach – Cydweithwyr Diogel a Hapus

un o'r 12 cwsmer a effeithiwyd gan y llifogydd, a threfnodd fod y rhai a oedd angen llety yn ei gael.

Fel y dywedodd un o'n cwsmeriaid, Jacqueline:

“Mae gan Louisa agwedd eithriadol o dda tuag at ei gwaith a thuag atom ni'r cwsmeriaid. Mae hi'n gwrando ar ein pryderon ac, yn bwysicach fyth, yn cymryd camau.”

Llanw yn cipio gwobr Ymgrych y Flwyddyn



Ers ei sefydlu, bwriad Llanw yw darparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw, yn ogystal â thrawsnewid y ffordd rydym yn cefnogi dros 6,000 o gartrefi ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r enw Llanw yn cynrychioli ei ymatebolrwydd a'i allu i addasu i anghenion datblygol y cwsmer.

O weithdai darganfod i gwsmeriaid i sesiynau taflu syniadau gyda chydweithwyr, cafodd pob cam o ddatblygiad Llanw ei lunio gan y rhai y mae'n eu gwasanaethu.

Chwaraeodd partneriaethau cryf ran allweddol yn nhaith Llanw hefyd. Trwy weithio'n agos â Grŵp Cardo, Alliance Homes, a Bright Collie, adeiladodd Llanw sylfaen gref a phroffesiynol.

Digwyddiadau Dathlu Cydweithwyr

Y llynedd, aethom ati i drefnu ein digwyddiad dathlu cyntaf erioed yn yr haf i roi cyfle i gydweithwyr ddiffodd eu gliniaduron a dathlu eu cyflawniadau diweddar.

Gyda gwobrau i'w cipio, siaradwr gwadd a gêm o fingo, roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol.

Dywedodd un cydweithiwr wrthym:

“Roedd hi'n wych cael y cyfle i gysylltu â chydweithwyr o bob rhan o'r busnes, ac i gwrdd â'r rhai nad oeddwn wedi gweithio â nhw eto. Roedd y lleoliad yn ardderchog a gwerthfawrogwyd yr agwedd hamddenol yn fawr.”



Cliciwch i weld

Buddsoddi yn ein Pobl

Rydym yn credu bod buddsoddi yn ein pobl yn allweddol i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf a gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, felly rydym wedi gwneud ymrwymiad sylweddol i ddatblygiad staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



Roedd ein cyfleoedd hyfforddi yn cynnwys ystod eang o gymwyseddau a fydd yn helpu cydweithwyr yn eu bywyd personol a phroffesiynol, o Reoli Gwrthdaro a Chwynion i [ymwybyddiaeth o ddementia](#).



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
[Cydwethwyr Diogel a Hapus](#)
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Cydweithwyr Diogel a Hapus

Mae llawer o'n cydweithwyr wedi ymgymryd â chymwysterau mewn Tai Lefel 2, Hyfforddi a Mentora Lefel 3, a Rheoli Prosiectau. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn gallu arweinyddiaeth trwy'r rhaglen Rheolaeth ac Arweinyddiaeth gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yn ogystal â chymhwyster Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Mae'r dysgu rydym wedi'i hwyluso wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder ein cydweithwyr ac wedi galluogi rhai ohonynt i ddatblygu o fewn y busnes.

Roedd un cydweithiwr, y gwnaeth ei hyfforddiant ei helpu i symud o rôl weinyddol i swydd Swyddog Datblygu, wedi dweud wrthym:

“Mae cymwysterau mewn rheoli prosiectau wedi fy helpu yn fy ngwaith beunyddiol ac wedi rhoi'r hyder i mi ddatblygu ar draws timau. Mae wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i'm swydd a'm cyflog.”

I sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyfredol ag arferion gorau'r sector, mynychodd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad amrywiaeth eang o gynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Cynhadledd PEPA, Llywodraethu Cymru 2024,

Un Gynhadledd Fawr CHC, Uwchgynhadledd Gymunedol Tai 2024, a'r Gynhadledd Gyfathrebu Genedlaethol i Denantiaid, ymhlith nifer o rai eraill.

Mae blaenoriaethu dysgu a datblygu'n sicrhau bod ein staff wedi'u paratoi'n dda i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a'n cymunedau, nawr ac yn y dyfodol.


Academi Llanw

Roeddem hefyd yn falch o lansio Academi Llanw, ein hacademi brentisiaid gyntaf, fis Medi diwethaf, gyda'r nod o recriwtio rhwng pedwar a chwe phrentis bob blwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn cynnig y cyfle i bobl ifanc lleol gwblhau swyddi atgyweirio a chynnal a chadw ochr yn ochr â phobl brofiadol wrth eu crefft, tra maent yn gweithio tuag at gymhwyster ac yn ennill cyflog yn unol â'r gyfradd brentisiaeth genedlaethol. Rhannodd [Ryan](#) a [Kaitlyn](#) o'r garfan gyntaf yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu hyd yma, a pham eu bod yn mwynhau bod yn rhan o dîm Llanw.

Rydym hefyd wedi cyflwyno ein cynllun cyntaf i raddedigion, sy'n cynnig dwy swydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Dai ac un yn y Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddarparu llwybrau strwythuredig i'r rhai sy'n gadael y brifysgol.



Cliciwch i weld



Cliciwch i weld



Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydwethwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Dyfodol Diogel a Hapus

Dyfodol Diogel a Hapus

Wrth symud ymlaen, mae darparu cartrefi diogel, cynnes a sych i'n preswylwyr yn dal i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn bwriadu parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ein stoc dai bresennol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchaf posibl i'n cwsmeriaid.

Mae ein hymrwymiad wastad wedi ymestyn y tu hwnt i gynnal a chadw sylfaenol. Rydym eisoes yn gweithio'n weithredol tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy drwy hyrwyddo mentrau datgarboneiddio ar draws ein heiddo, archwilio a gweithredu datrysiadau sy'n effeithlon o ran ynni i leihau ein hól troed carbon, helpu preswylwyr i ostwng eu costau ynni, a gwella ansawdd ein cartrefi.

Yn ogystal, gan adeiladu ar y cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud, rydym wedi ymrwmo i gyflawni'r safonau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 newydd. Byddwn yn dechrau cynllunio ar gyfer hyn, gan ddeall yr hyn sydd ei angen a'r

hyn sy'n gyraeddadwy, i sicrhau bod ein cartrefi yn fodern, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac yn addas ar gyfer safonau byw cyfoes yn y dyfodol, yn ogystal â chynig gwerth da am arian.

Nid canolbwytio ar gartrefi presennol yn unig mae ein strategaeth fuddsoddi; rydym hefyd wedi ymrwmo i adeiladu cartrefi newydd o ansawdd dda er mwyn diwallu anghenion tai cynyddol ein cymunedau, sy'n rhan allweddol o'n cynlluniau parhaus. Bydd y datblygiadau newydd hyn yn parhau i gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'n safonau asedau a chynaliadwydd gofalus, gan sicrhau nid yn unig eu bod wedi'u hadeiladu'n dda ond hefyd eu bod yn amgylcheddol ymwybodol.

Y tu hwnt i'r cartrefi unigol, rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr amgylchedd byw ehangach. Felly, byddwn yn parhau â'n hymdrechion i wella ein hardaloedd cymunedol a'n mannau agored i greu amgylcheddau mwy dymunol ac ymarferol i'n holl gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys gwella cyfleusterau a rennir, mannau gwyrdd, ac ardaloedd hamdden, gan feithrin yr ymdeimlad o gymuned a llesiant, sef ein bwriad ar hyd yr amser.

Trwy'r buddsoddiadau cynhwysfawr a pharhaus hyn, ein nod yw darparu cartrefi rhagorol, yn ogystal â helpu i adeiladu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy am flynyddoedd i ddod i gwsmeriaid Cymoedd i'r Arfordir.

Rydym wedi ymrwmo i gynaliadwydd oherwydd ein bod ni'n credu bod hyn yn hanfodol i'n cymuned a'r blaned. Mae ein siartiau Strategaeth Asedau a Chynaliadwydd 2025–2030 newydd yn amlinellu sut rydym yn ymdrechu i ddod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 ac i wneud Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru yn lleoedd gwell i fyw.

Dyma'r pethau rydym yn eu gwneud i gefnogi'r ymrwymadau cynaliadwydd hyn:

Effeithlonrwydd Ynni a Lleihau Carbon

- Rydym yn cymryd rhan mewn ôl-ffitio cartrefi presennol i wella effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn cynnwys gosod inswleiddiad gwell, ffenestri ynni-effeithlon, ac uwchraddio systemau gwresogi.
- Rydym yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy fel paneli solar yn ein cartrefi i leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil a gostwng allyriadau carbon.
- Rydym yn adnabod ac yn defnyddio ein mannau gwyrdd a llwyd mewn ffyrdd newydd i gefnogi'r amgylchedd drwy sicrhau cyllid ar gyfer mannau tyfu bwyd cymunedol, plannu perllannau, dolydd blodau gwyllt, coedwigoedd bychain a dal carbon.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydwethwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Dyfodol Diogel a Hapus

Datblygiadau Newydd Cynaliadwy

- Rydym yn defnyddio dulliau adeiladu modern (MMC) yn ein datblygiadau tai newydd, sydd nid yn unig yn cyflymu'r gwaith adeiladu ond hefyd yn lleihau gwastraff ac yn gwella effeithlonrwydd ynni.
- Mae pob un o'n cartrefi newydd yn bodloni neu'n rhagori ar y safonau effeithlonrwydd ynni a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Cefnogi Mentrau Cymunedol

- Rydym yn cefnogi mentrau cymunedol lleol sydd â'r nod o hyrwyddo cynaliadwyedd; rydym wedi sicrhau £495,000 o gyllid grant i wella seilwaith gwyrdd ein stadau ac wedi cyflwyno gerddi perlysiâu, gerddi blodau gwyllt, plannu coed ar y stryd, mannau tyfu bwyd cymunedol ac wedi plannu dros 1800 o goed mewn tair coedwig fechan arloesol.
- Rydym yn addysgu ein cwsmeriaid am effeithlonrwydd ynni ac arferion byw cynaliadwy, gan helpu i leihau'r defnydd o ynni a gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Tai Fforddiadwy ac o Ansawdd

- Fel rhan o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd, rydym yn adolygu ein manylebau ar gyfer cynhyrchion a

deunyddiau yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried eu heffaith amgylcheddol a'u cylch bywyd yn llawn.

- Rydym wedi ymrwymo i ddarparu opsiynau tai fforddiadwy sydd hefyd yn gynaliadwy, gan alinio â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Rydym yn sicrhau bod ein cartrefi'n cydymffurfio â SATC 23, sy'n cynnwys safonau uchel ar gyfer effeithlonrwydd ynni, diogelwch, a chyfforddusrwydd.

Arloesedd a Thechnoleg

- Rydym yn ymgorffori technolegau cartref clyfar i wella effeithlonrwydd ynni a darparu mwy o reolaeth i breswylwyr dros eu defnydd o ynni.
- Rydym yn treialu prosiectau sydd â'r nod o brofi a gweithredu atebion cynaliadwyedd arloesol ym maes tai.

Datblygu a Chynllunio Lleol

- Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac awdurdodau lleol eraill i alinio datblygiadau tai gydag amcanion cynaliadwyedd lleol a'u Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).
- Rydym yn cefnogi mentrau fel y rhwydwaith gwres ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n darparu datrysiadau gwresogi carbon isel i gartrefi.

Enghreifftiau o'n Mentrau

- Prosiect Braenaru Ynni Pen-y-bont ar Ogwr: Nod ein cyfranogiad yn y prosiect hwn yw gwneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon trwy ôl-ffitio a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.
- Prosiectau Datgarboneiddio: Rydym wedi ymgymryd â phrosiectau sydd wedi'u hanelu'n benodol at leihau allyriadau carbon o'n stoc tai, gan gyfrannu at nod Cymru o garbon sero-net erbyn 2050. Mae enghreifftiau'n cynnwys pypiau gwres ffynhonnell aer, gosod inswleiddiad ar waliau allanol a phaneli solar.

Ein Hymrwymadau yn y Swyddfa

Rydym wedi rhoi amrywiaeth o fesurau cynaliadwyedd ar waith o fewn ein swyddfeydd i gefnogi ein hymrwymadau amgylcheddol ehangach. Mae'r camau hyn yn cynnwys uwchraddio i oleuadau LED ynni-effeithlon a gwella inswleiddiad i wella effeithlonrwydd ynni. Rydym wedi cyflwyno rhaglenni ailgylchu cynhwysfawr, wedi hyrwyddo amgylchedd swyddfa ddi-bapur, ac wedi defnyddio deunyddiau swyddfa ecogyfeillgar. Rydym yn annog gweithio o bell a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i leihau allyriadau cymudo.

Mae ein hymdrechion yn cyd-fynd â nodau ehangach o leihau allyriadau carbon, gwella effeithlonrwydd ynni, a darparu tai cynaliadwy a fforddiadwy.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Cwsmeriaid Diogel a Hapus
Cartrefi Diogel a Hapus
Lleoedd Diogel a Hapus
Cydwethwyr Diogel a Hapus
Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach – Dyfodol Diogel a Hapus

Ein Hymrwymiadau ar gyfer Mannau Agored

Rydym wedi cynnal asesiad ecolegol o'n mannau agored gyda'r nod o nodi sut y gellir gwella ein mannau gwyrdd ar gyfer cynhyrchu gwasanaethau ecosystem drwy ddatrysiaidau sy'n seiliedig ar fyd natur.

Amlygodd yr asesiad bwysigrwydd coetiroedd brodorol, glaswelltiroedd, a gwlyptiroedd sydd yn ein perchnogaeth, ac mae'n trafod eu rôl mewn dal a storio carbon, cryfhau rhwydweithiau ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth, a darparu gwasanaethau ecosystem eraill fel gwella ansawdd aer, lleihau sŵn, hamdden, a rheoli llifogydd yn naturiol.

Fel tirfeddiannwr mawr, amcangyfrifir bod y storfa garbon ar ein tir yn 13,688.24 tonnelli o Garbon yn y pridd a'r llystyfiant, gyda'r potensial i gynyddu tua 48% i 20,277.09 tonnelli o Garbon os manteisir ar yr holl gyfleoedd a nodwyd. Mae'r asesiadau hyn yn llywio sut rydym yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i ddal carbon ar ein tir.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Llywodraethiant

Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel o lywodraethiant ac yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, yn unol â Chod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), yr ydym wedi'i fabwysiadu.

Fel rhan o'n cylch cynlluniedig o hunanwerthuso llywodraethiant, comisiynwyd adolygiad annibynnol yn ystod y flwyddyn ac fe'i cynhaliwyd gan Campbell Tickell. Pwrpas yr adolygiad oedd asesu effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethiant a sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben wrth i'r sefydliad baratoi i gyflawni cam nesaf ei Strategaeth Gorfforaethol.

Cadarnhaodd yr adolygiad bod ein fframwaith llywodraethiant yn briodol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol, goruchwyliaeth, a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Fodd bynnag, nododd hefyd nifer o argymhellion adeiladol a luniwyd i gefnogi'r broses barhaus o aeddfedu ein fframwaith llywodraethiant. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i strwythurau'r

Bwrdd a'r pwyllgorau, cynllunio olyniaeth, goruchwyliaeth sicrwydd a risg, a datblygiad y Bwrdd.

Derbyniodd y Bwrdd argymhellion yr adroddiad ac, yn unol â'n hymrwymiad i welliant parhaus, cytunodd y byddai'r rhain yn cael eu gweithredu fesul cam i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethiant yn parhau i gefnogi cyflawniad strategol a thwf sefydliadol.

Yn unol â'r gofynion, fel y nodir yn y Fframwaith Rheoleiddio, bu i'r Bwrdd baratoi a chyhoeddi ei Ddatganiad Cydymffurfiaeth Blyneddol a'i Gynllun Gwella Parhaus ym mis Mai 2024. Darparwyd diweddariadau cynnydd i'r Rheoleiddiwr yn chwarterol ynghylch gweithredu'r camau gweithredu perthnasol a nodir yn y cynllun gwella parhaus. Mae'r Grŵp wedi cynnal y statws barn reoleiddiol uchaf un sef 'safonol' ar gyfer hyfywedd ariannol a 'llywodraethiant a gwasanaethau tenantiaid' ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Bwrdd yn adrodd isod ar sut y mae'n ceisio parhau i gyflawni llywodraethiant cymdeithas dai effeithiol.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tîm
Pwyllgorau
Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn
Cyfrifoldebau

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau sy'n gyd-gyfrifol am reoli materion y Grŵp. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn i drafod cyfeiriad strategol, cynnal sesiynau ffocws ar agweddau penodol o'r busnes a sicrhau bod yr uwch dîm, a thrwy hynny weddill y busnes, yn cael eu dal yn atebol am eu canlyniadau.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am strategaeth y Grŵp a nifer o bolisiau hollbwysig. Mae rheolaeth feunyddiol a gweithrediad y fframwaith hwnnw wedi'i ddirprwyo i Brif Weithredwr y Grŵp ac aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tîm

Pwyllgorau

Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn
Cyfrifoldebau

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Cwrdd â'r Tîm

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn eu swydd drwy gydol y flwyddyn

Aelodau Annibynnol y Bwrdd



Amanda Davies
Cadeirydd



Joanne Smith
Is-Gadeirydd



Derek Hobbs



Richard Jenkins



Caroline Jones



Tara King



Sharon Lee



Gill Lewis
(Penodwyd 11/07/2024)



Joy Ogeh-Hutfield



Andrew Wallbridge



Mark Woloshak

Y Tîm Gweithredol



Joanne Oak
Prif Weithredwr y Grŵp



Emma Howells
Cyfarwyddwr
Gweithredol Tai,
Cymunedau a
Chwsmeriaid



Huw Lewis
Cyfarwyddwr
Gweithredol Cyllid
a Gwasanaethau
Corfforaethol



James Griffiths
Rheolwr Gyfarwyddwr
Datblygu ac Adfywio
(penodwyd 06/01/2025)



Paul Price
Rheolwr Gyfarwyddwr
Llanw

Aelodau Annibynnol y Bwrdd: Mark Doubler (ymddiswyddodd 19/06/2024), Sophie Taylor (ymddiswyddodd 24/06/2024)

Y Tîm Gweithredol: Darrin Davies - Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu, Asedau a Chynaliadwyedd (ymddiswyddodd on 22/07/2024)



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tîm

Pwyllgorau

Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn
Cyfrifoldebau

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Pwyllgorau

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan strwythur pwyllgorau i gefnogi meysydd allweddol ac i gynghori ar feysydd manwl o'r busnes. Y pwyllgorau oedd yn eu lle drwy gydol y flwyddyn oedd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth, a'r Pwyllgor Datblygu ac Asedau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys o leiaf pedwar aelod, ac mae'n rhaid i o leiaf tri ohonynt fod yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod hyd at bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n ystyried penodi archwilwyr mewnol ac allanol, cwmpas eu gwaith a'u hadroddiadau, yn ogystal â monitro rheolaeth risg.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn cynnwys o leiaf pedwar aelod, ac mae'n rhaid i o leiaf dau ohonynt fod yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'n adolygu cydnabyddiaeth yr holl gydweithwyr o dan bolisi gwobrwyo'r Grŵp.

Mae'r Pwyllgor Datblygu ac Asedau yn cynnwys o leiaf pedwar aelod, ac mae'n rhaid i o leiaf dau ohonynt fod yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd a hyd at ddau aelod annibynnol ychwanegol.

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael cyngor arbenigol allanol pan fo angen. Mae cynlluniau busnes y Grŵp, a'r cynllun Corfforaethol, yn sefydlu'r amcanion a'r strategaeth gyffredinol o ran rheoli risg.

Archwaeth risg

Y mathau a'r lefelau o risg a ystyrir yn dderbyniol. Caiff archwaeth risg y Grŵp ei gytuno arno ar gyfer pob risg strategol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Lle canfyddir bod risg strategol y tu allan i archwaeth risg y Grŵp, cymerir camau i roi rheolaethau pellach ar waith, neu ceisir sicrwydd bod y rheolaethau a nodwyd yn gweithredu'n effeithiol.

Ymateb i risg

Y camau a gymerir i reoli, monitro neu liniaru'r risg.

Gosod polisi

Lle gellir pennu lefelau risg ac ymatebion, sefydlir polisiau mewnol.

Sicrwydd

Sut y gall y Bwrdd fod yn sicr bod y risgiau'n cael eu monitro a'u rheoli ac yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi.

O fewn y polisi rheoli risg, cydnabyddir bod y Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am risg. Mae rheolaeth feunyddiol o risgiau wedi'i neilltuo'n ffurfiol i'r Tîm Gweithredol.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tîm

Pwyllgorau

Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn
Cyfrifoldebau

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Amcan y Bwrdd wrth wneud hynny yw:

- Meithrin diwylliant o ymwybyddiaeth risg;
- Sicrhau bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli'n dda;
- Sicrhau bod atebolrwydd a chyfrifoldebau'n glir;
- Creu strwythur ar gyfer darparu adroddiadau ar reoli risg i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

Cynhelir y broses o nodi risg mewn ffordd strwythuredig i sicrhau:

- Bod Aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr sy'n cynnal yr adolygiad yn ymwybodol o amcanion strategol y Grŵp fel y'u nodir yn y Cynllun Corfforaethol;
- Bod yr holl risgiau strategol a gweithredol blaenoriaeth uchel yn cael eu nodi;
- Bod gwerthusiad risg wedi'i osod yn y cyd-destun cyffredinol;
- Bod modd blaenoriaethu risgiau'n realistig i sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar feysydd critigol.

Mae dadansoddiad risg strategol y Bwrdd wedi nodi nifer o heriau dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r rhai mwyaf arwyddocaol yn cynnwys:

- Llywodraethiant;
- Rheoleiddio;
- Y Trysorlys a rheoli arian parod;
- Iechyd a diogelwch landlord;
- Buddsoddiad annigonol yn ein cartrefi presennol;
- Pobl a diwylliant;
- Uniondeb a diogelwch data;
- Datgarboneiddio;
- Sefydlu is-gwmni newydd sy'n eiddo llwyr iddo a fydd yn darparu'r gwasanaeth atgyweirio ymatebol ar gyfer Cymoedd i'r Arfordir;
- Digwyddiadau neu ddamweiniau mawr annisgwyl, a;
- Cydnerthedd TG a seiberddiogelwch.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tim

Pwyllgorau

[Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn](#)

[Cyfrifoldebau](#)

Ein Cyllid +

**Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol**

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn

Mae'r Bwrdd yn adrodd am
warged Grŵp am y
flwyddyn cyn enillion
actiwaraid o £901k fel y
dangosir yn y datganiad
incwm Cynhwysfawr, ac
asedau net o £50.7m fel yr
adroddwyd yn y datganiad
o'r sefyllfa ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y
Grŵp £11.8m (2024: £7.89 miliwn) ar
atgyweiriadau cynlluniedig a gwelliannau
i eiddo tai. Mae manylion y newidiadau i
asedau sefydlog y Grŵp i'w gweld yn
nodiadau 10, 11 a 12 i'r datganiadau
ariannol.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25,
daethom ag 82 eiddo newydd o dan
reolaeth. Wrth symud ymlaen, ar hyn
o bryd mae gennym 96 uned ar y safle
a 337 uned yn y biblinell yr ydym yn
gobeithio eu datblygu dros y
blynyddoedd nesaf.





Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Cwrdd â'r Tim

Pwyllgorau

Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn

[Cyfrifoldebau](#)

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Bwrdd

Cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad a'r datganiadau ariannol yn unol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol.

Mae deddfwriaeth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Tim Gweithredol wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfreithiau perthnasol, gan gynnwys FRS102). O dan ddeddfwriaeth LCC, ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o faterion a gweddill neu ddifffyg y Grŵp am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Bwrdd;

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwysu'n gyson;
- Gwneud barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddoeth; sicrhau bod Gweithdrefn (SORP) Cyfrifo gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig (SORP 2018), wedi'i dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;

- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail gweithrediad parhaus, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Grŵp yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal system ddigonol o reolaeth fewnol a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Grŵp ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiad ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008, a'r Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Mae hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Hyd y gŵyr pob un o aelodau'r Bwrdd:

Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Grŵp yn ymwybodol ohoni;

Mae aelodau'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol ar 03 Medi 2025.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd ar 4 Awst 2025 ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:



Amanda Davies
Cadeirydd y Bwrdd



Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiau Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Hylifedd

Mae hylifedd yn parhau i fod yn gryf, ac nid ydym yn disgwyl torri unrhyw gyfamodau benthyciad dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cael eu monitro yn unol â pholisi rheoli'r trysorlys y Cwmni, sy'n ymgorffori 'Rheolau Euraidd' a osodwyd gan y Bwrdd.

Y Gost Cyfartalog Pwysedig Cyfalaf (WACC) ar 31 Mawrth 2025 oedd 3.33% (ein costau benthycia cyffredinol), sy'n ein helpu i gadw digon o arian ar gael ar gyfer ein gweithrediadau. Yn dilyn 31 Mawrth 2025, rydym yn ymestyn ein Cyfleuster Credyd Cylchdro o £15m i £45m er mwyn ariannu ein cynlluniau datblygu presennol. Wrth i ni weithredu ein strategaeth fuddsoddi a'n huchelgais twf hirdymor gynyddu, drwy ddatblygu mwy o gartrefi newydd, byddwn yn ceisio ychwanegu cyllid strwythuredig hirdymor i ariannu'r cynnydd hwn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 fe wnaethom sicrhau cyllid hirdymor ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £5m ar gyfradd o 3% dros 30 mlynedd. Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi

datblygiad 27 uned llety ychwanegol yn ogystal â chyfrannu at waith gwella amgylcheddol dros y 5 mlynedd nesaf.

Ar ddyddiad y fantolen, mae ein Tîm Gweithredol yn credu bod y camau rydym wedi'u cymryd yn ddigon i ddiogelu'r Grŵp rhag unrhyw risgiau sylweddol yn y tymor hir.

Polisiau Cyfrifyddu Allweddol

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu wedi'u nodi yn Nodyn 1 o'r datganiadau ariannol hyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol ar sail gweithrediad parhaus, ystyriodd y Bwrdd a'r tîm rheoli gyllidebau, cynlluniau busnes, sefyllfa ariannol, a rhagolygon ariannol y Grŵp

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn briodol llunio'r datganiadau ariannol ar sail gweithrediad parhaus. Darperir dadansoddiad pellach o hyn yn Nodyn 1 i'r datganiad ariannol ar [Dudalen 46](#).



Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiâu Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwiliwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Cydnabyddiaeth

Polisi

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn gyfrifol am adolygu'r Polisi Gwobrwyo ar gyfer yr holl gydweithwyr yn flynyddol. Mae'n ystyried unrhyw gynnydd cyflog ar gyfer cydweithwyr ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth yn talu sylw manwl i lefelau cydnabyddiaeth yn y sector wrth bennu pecynnau cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol a chydweithwyr uwch eraill. Pennir cyflogau sylfaenol gan ystyried materion fforddiadwyedd, y farchnad allanol, chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a lefelau cyflog ar gyfer swyddi tebyg.

Contractau gwasanaeth

Mae'r Tîm Gweithredol yn cael eu penodi ar gontractau parhaol gyda chwe mis o rybudd.

Pensiynau

Roedd holl aelodau'r Tîm Gweithredol yn aelodau cyffredin o Gynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS), sy'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, ar 31 Mawrth 2025. Mae'r Tîm Gweithredol yn cymryd rhan yn y cynllun ar yr un telerau â'r holl gydweithwyr cymwys eraill. Mae'r Grŵp yn cyfrannu at y cynlluniau ar ran ei weithwyr.

Buddion eraill

Nid oes gan y Tîm Rheoli Gweithredol hawl i fuddion eraill megis darpariaeth lwfans car. Mae manylion llawn pecynnau cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol wedi'u cynnwys yn **nodyn 9** i'r datganiadau ariannol archwiliedig hyn.



Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiau Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwiliwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Gwerth am Arian

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Gwerth am Arian yn ein holl weithgareddau, nid yn unig o ran rheoli costau ond hefyd o ran cyflawni gwerth cynaliadwy i randdeiliaid a meithrin cryfder y fantolen a chadernid ariannol. Rydym yn monitro perfformiad Gwerth am Arian bob mis, ac mae'n rhan annatod o'n Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2021-2031.

Ein nodau Gwerth am Arian yw:

- Gwellu ein helw gweithredu a sicrhau gwell effeithlonrwydd gweithredol.
- Datblygu strategaethau datblygu a thrysorlys newydd yn barhaus i wella ein stoc dai a chefnogi cyfran deg o uchelgais y sector i adeiladu 20,000 o gartrefi newydd yng Nghymru. Ein huchelgais yw datblygu 1,133 o gartrefi newydd erbyn 2035.
- Sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau ar gael i fuddsoddi'n

ddigonol yn ein strategaethau rheoli asedau a gwella technoleg.

I wneud hyn byddwn yn:

- Caffael yn effeithiol
- Rheoli prosiectau'n effeithiol
- Datblygu gwell gwybodaeth reoli, data busnes a dealltwriaeth o gwsmeriaid
- Monitro rhagolygon y dyfodol a chynlluniau ariannol y agos.

Byddwn hefyd yn ystyried:

- Sut rydym yn dyrannu adnoddau ar draws y busnes.
- Yr elw cymdeithasol ar ein buddsoddiad.
- Ceisio gwell dealltwriaeth o berfformiad busnes o'i gymharu â'n cyfoedion.
- Sut rydym yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ddiwygio lles, yr Adolygiad Tai Fforddiadwy a diwygio deiliadaeth. Byddwn yn cymryd rhan mewn mentrau sector sy'n ymwneud â Gwerth am Arian (GaA) a thryloywder wrth iddynt ddatblygu. Yn olaf, bydd ffocws diwylliannol cryf ar ein cwsmeriaid a'u hanghenion, yn fewnol ac yn allanol, hefyd yn elfen hanfodol i gyflawni Gwerth am Arian ar draws y sefydliad.

Ein cyflenwyr

Mae ein cyflenwyr yn hanfodol i ansawdd y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cwsmeriaid ac wrth sicrhau ein bod yn cael gwerth am ein harian. Er bod gennym nifer cyfyngedig o gyflenwyr cenedlaethol mawr, mae ein prif sylfaen gyflenwi yn fusnesau bach a chanolig lleol.

Rydym yn defnyddio GwerthwchiGymru ac eDendroCymru i hysbysebu a thendro ein gofynion ac rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â chyflenwyr lleol drwy ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' ac ymgysylltu cyn-farchnad. Mae ein tendrau wedi'u targedu at y mathau o gyflenwyr rydym am eu cyrraedd, gan arwain at brosesau a thrafodaethau contract mwy effeithiol, a phenodi'r cyflenwyr gorau.

Rydym yn cynnwys cwestiynau a chymalau budd cymunedol yn rheolaidd fel rhan o'n tendrau a'n contractau. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr gwariant uchel i weld pa fuddion ychwanegol y gallant eu cynnig i'n cymunedau.

Rydym wedi ymgysylltu â chwmni caffael lleol, 2Buy2, i adolygu ein prosesau caffael deunyddiau a'u cryfhau ymhellach o safbwynt cynaliadwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae adborth hefyd yn rhan o'r broses i'r holl gyflenwyr sy'n ymateb i'n tendrau, a'r rhai sydd ar ddiwedd eu contractau.

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiau Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwiliwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Fel y'u hadroddwyd naill ai i Lywodraeth Cymru neu'n fewnol, fe'u nodir yn y tabl canlynol:

	2024/25 Gwirioneddol	2024/25 Targed	2023/24 Gwirioneddol	2023/24 Targed
Ôl-ddyledion	2.02%	2.67%	2.63%	2.67%
Canran colled cartrefi gwag (%)	1.59%	1.23%	1.78%	1.43%
Cost blynyddol rheoli tai fesul cartref	£2,218	£2,394	£1,945	£2,413
Cyfanswm cost blynyddol cynnal a chadw fesul cartref (refeniw)	£2,430	£2,255	£2,005	£1,691
Cyfanswm cost blynyddol cynnal a chadw cynlluniedig a gwelliannau fesul cartref (cyfalaf)	£1,842	£1,513	£1,392	£1,499
Cyfanswm costau cynnal a chadw a gwelliannau fesul cartref (refeniw a cyfalaf)	£4,272	£3,768	£3,303	£3,190



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiâu Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Ôl-ddyledion

Cyfanswm gwerth ôl-ddyledion tenantiaid presennol ar ddiwedd y flwyddyn (net o Fudd-dal Tai uniongyrchol heb ei dalu) fel canran o'r debyd rhent blyneddol – Mae ôl-ddyledion o 2.02% yn is na'r targed o 2.67%.

Canran colled cartrefi gwag

Gwerth cronol y golled eiddo gwag fel canran o'r debyd rhent blyneddol – Mae'r 1.59% o golled o gartrefi gwag yn uwch na'r targed o 1.23%.


Cost blyneddol rheoli tai fesul uned

Mae'r gost rheoli tai fesul uned yn rhoi syniad o ba mor effeithlon yw'r Grŵp o ran rheoli'r portffolio o eiddo ar denantiaeth. Mae'n cynnwys holl gostau cyflog uniongyrchol staff rheoli tai, ynghyd â chostau fel yswiriant, cyfranogiad tenantiaid, costau casglu rhent yn ogystal â dosraniad teg o gostau gorbenion a swyddfa. Nid yw'n cynnwys costau ystad y gellid eu hadennill drwy godi costau gwasanaeth. Mae'r gost wirioneddol fesul cartref o £2,218 yn weddol gyson â rhagdybiaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Y rheswm am y newid mawr o gymharu â blyneddol blaenorol yw oherwydd newidiadau i ddosbarthiad y sefydliad.

Mae'r cyfanswm cost hefyd yn cynnwys cost gweinyddu a rheoli swyddogaethau cynnal a chadw'r Grŵp.

Cyfanswm cost blyneddol cynnal a chadw fesul cartref (refeniw a cyfalaf)

Mae cyfanswm y gost cynnal a chadw fesul cartref yn rhoi syniad o lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal ein stoc. Mae'n cynnwys yr holl waith cynnal a chadw arferol a chylchol a chost atgyweiriadau a gwelliannau mawr, a godir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant (refeniw) neu a godir i'r Fantolen (cyfalaf). Mae cyfanswm y gost cynnal a chadw (refeniw a cyfalaf) fesul cartref o £5,733 ychydig yn uwch na rhagdybiaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu ein buddsoddiad parhaus yn ein cartrefi presennol ynghyd â derbyn cyllid grant sydd wedi caniatáu ar gyfer lefel uwch o wariant.





Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylifedd a Polisiâu Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwiliwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled

Mae offerynnau ariannol y Cwmni yn cynnwys arian parod, buddsoddiadau tymor byr, a benthyciadau. O ran hylifedd, gan fod gwella a darparu tai yn fusnes hirdymor: polisi'r Cwmni yw defnyddio benthyciadau tymor canolig a hirdymor i'w hariannu. Ar 31 Mawrth 2025, cyfanswm y cyfleuster benthycia oedd £96 miliwn, yn cynnwys:

- Cyfleuster credyd cylchdroi (RCF) cyfradd amrywiol o £15 miliwn gan Fanc Lloyds. Gallwn fenthycia, ad-dalu, a benthycia eto tan fis Tachwedd 2026 (gyda £3m wedi'i dynnu allan ar 31 Mawrth 2025). Mae opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd arall. Mae'r benthyciad hwn yn gysylltiedig â nodau ESG (Amgylcheddol, Cymdeithasol, Llywodraethu), sy'n dangos ein hymrwymiad i wella ein sefydliad drwy ein dewisiadau ariannol.

- Cytundeb Prynu Nodyn cyfradd sefydlog o £25 miliwn gydag M&G Investments, sy'n gorfod cael ei ad-dalu'n llawn erbyn mis Mawrth 2045.
- Cytundeb Prynu Nodyn cyfradd sefydlog o £10 miliwn gydag M&G Investments, sy'n gorfod cael ei ad-dalu'n llawn erbyn mis Mawrth 2052.
- Benthyciad Di-log o £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w ad-dalu ym mis Mawrth 2025.
- Cyhoeddiad bond cyfradd sefydlog (bLEND) o £35 miliwn drwy THFC, sy'n aeddfedu ym mis Mai 2054 ac i'w ad-dalu ym mis Mawrth 2054.
- Benthyciad datblygu cyfradd sefydlog o £5m gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w ad-dalu ym mis Mawrth 2054.
- Benthyciad datblygu cyfradd sefydlog o £5m gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w ad-dalu ym mis Mawrth 2055.

Yn ogystal, mae cynnydd i'n cyfleuster RCF presennol gyda Lloyds o £30m (cyfanswm RCF o £45m) ar y gweill ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ddechrau mis Gorffennaf 2025. Bydd hyn yn cefnogi ein huchelgais datblygu bresennol.



Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Hylfedd a Polisiâu Cyfrifyddu Allweddol
Cydnabyddiaeth
Gwerth am Arian
Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Datganiad o Sefyllfa Ariannol a Dyled
Rheoli'r Trysorlys

Adroddiad yr Archwiliwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Cyllid

Rheoli'r Trysorlys

Mae ein Tîm Cyllid yn gweithredu swyddogaeth trysorlys, sy'n delio â thasgau fel rheoli arian parod, cyllid, buddsoddiadau a risgiau ariannol. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau llog a pha mor dderbyniol yw partïon eraill o ran teilyngdod credyd. Rydym yn ystyried bod rheoli'r trysorlys yn cynnwys goruchwyllo llif arian, bancio a buddsoddiadau ar yr un pryd â rheoli risgiau cysylltiedig er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau.

Rydym yn mesur llwyddiant ein rheolaeth trysorlys drwy ba mor dda yr ydym yn nodi, yn monitro, ac yn rheoli risgiau. Rydym yn canolbwyntio ar ddeall y risgiau a'u goblygiadau.

Credwn fod rheolaeth trysorlys effeithiol yn cefnogi ein hamcanion busnes. Rydym wedi ymrwymo i gael y gwerth gorau o'n gweithgareddau trysorlys wrth reoli risgiau'n effeithiol. Nid yw ein swyddogaeth drysorlys wedi'i bwriadu i wneud elw, ac nid ydym yn cymryd rhan mewn trafodion hapfasnachol.

Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo ein polisiâu trysorlys yn flynyddol. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio offerynnau deilliadol i reoli risgiau cyfradd llog, ond dim ond os caiff ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Nod ein polisi yw sicrhau cyfuniad cytbwys o fenthyciadau cyfradd sefydlog ac amrywiol. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 4% o'n £84 miliwn o gyfleusterau benthyciad a dynnwyd allan ar gyfradd amrywiol.

Nid oes gennym amlygiad sylweddol i risgiau fel newidiadau mewn prisiau, problemau credyd, neu problemau llif arian o'n gweithgareddau masnachu. Er nad ydym yn masnachu offerynnau ariannol, rydym yn defnyddio dulliau gwarchod rhag risg cyfraddau llog i sefydlogi cyfraddau ar gyfer o leiaf 70% o'n hanghenion benthyciad disgwylledig dros y pum mlynedd nesaf.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ar Lywodraethu Corfforaethol

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, rydym wedi adolygu datganiad Bwrdd Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig a'i is-gwmni ("y Grŵp") ar gydymffurfiaeth â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 02/10, Rheolaeth Ariannol Fewnol ac Adrodd Ariannol ("y Cylchlythyr").

Amcan ein hadolygiad yw ein galluogi i ddod i gasgliad ynghylch a yw'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac a yw'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Nid oes angen i ni ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Grŵp na'i reolaeth ariannol fewnol.

Barn

O ran datganiad y Bwrdd ar sicrwydd rheolaethau mewnol ar dudalen 22, yn ein barn ni, mae'r Bwrdd Rheoli wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac mae'r datganiad yn gyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

Bevan Buckland LLP

4 Awst 2025

Bevan Buckland LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr
Statudol Llawr Gwaelod
Tŷ Aberteifi
Cwrt y Castell
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

**Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol**

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig a'i is-gwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 sy'n cynnwys Datganiadau Incwm Cynhwysfawr y Grŵp, Datganiadau Sefyllfa Ariannol y Grŵp, Datganiadau Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig i'r datganiadau ariannol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ac FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion y Grŵp a'r rhiant-gymdeithas ar 31 Mawrth 2025 ac o incwm a gwariant y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol

Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

Sail dros farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt lle:

- nad yw'r Bwrdd wedi defnyddio'r sail fusnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r Bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a nodwyd a

allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Grŵp i barhau i fabwysiadu'r sail fusnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o o leiaf deuddeng mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y Bwrdd, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad, neu os ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall.

Os, ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, y down i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Grŵp wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- na sefydlwyd system foddhaol i reoli trafodion; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalen 28, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag y mae'r Bwrdd yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a

defnyddio'r sail fusnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu roi'r gorau i weithrediadau, neu heb unrhyw ddewis realistig arall ond i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fo un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Rydym yn nodi ac yn asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y Datganiadau Ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac yna'n dylunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Gwnaethom drafod ein hannibyniaeth archwilio gan gydymffurfio â'r Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 ag aelodau'r tîm ymgysylltu wrth gynllunio'r archwiliad ac roeddem yn monitro ein hannibyniaeth yn barhaus drwy gydol y broses.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud ag achosion o afreoleidd-dra

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiadau perthnasol o ran achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r tîm rheoli, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennaeth ategol, ynghylch polisïau'r Grŵp a gweithdrefnau yn ymwneud â:
- nodi, gwerthuso, a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig;
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau yn ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y Datganiadau Ariannol ac unrhyw



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, gwnaethom nodi potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol;

- Prynu mewn perthynas â'r rhaglenni datblygu a chynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw werthiannau i unigolion cysylltiedig am bris is na gwerth y farchnad;
- Cydnabod gwariant datblygu a chynnal a chadw yn y cyfnod cywir;
- Sail resymegol unrhyw lif arian sylweddol yn ystod y cyfnod;
- Y potensial am dwyll rhent yn deillio o gydgyllwynio rhwng y timau asedau a thai.

- cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y Datganiadau Ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Grŵp. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Cwmnïau'r DU a deddfwriaeth treth berthnasol.

Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol;

- perfformio gweithdrefnau dadansodol i nodi unrhyw berthnasodd anarferol neu annisgwyl a allai ddangos risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai â chyfrifoldeb llywodraethu ac adolygu gohebiaeth â CThEM; a

- wrth ymdrin â'r risg o dwyll trwy'r tîm rheoli yn anwybyddu rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill;

- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dynodi tuedd bosibl; a

- gwerthuso'r rhesymeg fusnes ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Gwnaethom hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm ymgysylltu ac aros yn effro am unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad yr Archwilwyr.

Defnydd o'n hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn yn unig i aelodau'r Grŵp fel corff yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymunedol er Budd y Gymuned 2014. Ymgwymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallem ddatgan i aelodau'r Grŵp y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac at ddim diben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Grŵp ac aelodau'r Grŵp fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Bevan Buckland LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr
Statudol Llawn Gwaelod
Tŷ Aberteifi
Cwrt y Castell
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

4 Awst 2025



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Ein Swyddfa Gofrestredig

Parc Busnes Tremains
Heol Tremains
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1TZ

Rhif cofrestru Llywodraeth Cymru: **L137**

Rhif cofrestru cwmni yw: **30205R**

Ysgrifennydd y cwmni: **Claire McDougall**

Ein Harchwilwyr Allanol

Bevan Buckland LLP
Tŷ Aberteifi Cwrt y Castell
Parc Menter Abertawe
Llansamlet
Abertawe
SA7 9LA

Ein Harchwilwyr Mewnol

Gwasanaethau a Rennir Barcud
2 Porth Alexandra
Ffordd Pengam
Caerdydd
CF24 2SA

Ein Bancwyr

Grŵp Bancio Lloyds
Bancio Masnachol
Tŷ Sant William
Teras Tresilian
Caerdydd
CF10 5BH

Ein Cyfreithwyr

Capital Law
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4AZ

Blake Morgan LLP
One Central Square
Caerdydd
CF10 1FS

Hugh James
Tŷ Hodge
114–116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1DY

Acuity Law LLP
3 Sgwâr y Cynulliad
Caerdydd
CF10 4PL

Ein Cyllidwyr

Lloyds Bank Plc
3rd Llawr
10 Stryd Gresham
Llundain
EC2V 7AE

M&G Investments
10 Stryd Fenchurch
Llundain
EC3M 5AG

bLEND
3ydd Llawr
17 Lôn St.Swithin
Llundain
EC4N 8AL



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Cysylltwch â Ni

Ffoniwch ni: 0300 123 2100

E-bostiwch ni: TheHub@v2c.org.uk

Ewch i'n gwefan: valleystocoast.wales

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol:



Yn eich cefnogi gyda'r ddogfen hon

Os hoffech chi i unrhyw wybodaeth gael ei hesbonio neu ei chyfieithu, rhowch wybod i ni. Os ydych chi'n ei chael hi'n haws i ni siarad â chi yn eich iaith chi, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol.

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 2lain Blwyddyn

Ein 2lain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilywr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

		Grŵp	Cymdeithas	
	Nodyn	2025 - £'000	2025 - £'000	2024 - £'000
Trosiant	3a	41,334	41,671	38,170
Costau Gweithredu	3a	(39,024)	(39,398)	(35,050)
Gweddill ar waredu eiddo, peiriannau ac offer	4	528	528	212
Gwarged Gweithredu	3a	2,838	2,801	3,332
Llog Derbyniadwy		359	381	614
Llog a Chostau Ariannu	5	(2,485)	(2,485)	(1,869)
Gweddill am y flwyddyn ar weithgareddau cyffredin cyn treth		712	697	2,077
Trethiant ar weddill am y flwyddyn	6	(11)	(9)	(12)
Gweddill am y flwyddyn ar ôl treth		701	688	2,065
Enillion actiwaraid SHPS	24	216	216	(1,030)
Costau Setlo LGPS	24	(17,780)	(17,780)	-
Enillion LGPS ar ased nas cydnabuwyd yn flaenorol	24	18,290	18,290	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		1,427	1,414	1,035
Mae trosiant a threuliau'r cwmni i gyd yn ymwneud â gweithrediadau parhaus.				
Daeth y Grŵp i fodolaeth ym mis Rhagfyr 2023. Dechreuodd yr is-gwmni fasnachu ar 1 Ebrill 2024, felly ni ddangoswyd ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol.				

Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2025

	Grŵp	Cymdeithas
	Refeniw/Cronfa Wrth Gefn - £'000	Refeniw/Cronfa Wrth Gefn - £'000
Ar 31 Mawrth 2024	49,267	49,267
Gweddill am y flwyddyn	701	688
Enillion actiwaraid SHPS	216	-
Costau Setlo LGPS	(17,780)	-
Enillion LGPS ar ased nas cydnabuwyd yn flaenorol	18,290	726
Ar 31 Mawrth 2025	50,694	50,681

Amdanom Ni

Gair gan ein Prif Weithredwr
Grŵp a'n Cadeirydd

Cipolwg ar ein 21ain Blwyddyn

Ein 21ain Flwyddyn yn Fanylach +

Ein Llywodraethiant

Ein Bwrdd +

Ein Cyllid +

Adroddiad yr Archwilwyr
Annibynnol

Ein Swyddfa Gofrestredig

Cysylltwch â Ni

Adroddiad Ariannol

Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025

		Grŵp	Cymdeithas	
	Nodyn	2025 - £'000	2025 - £'000	2024 - £'000
Asedau Sefydlog				
Asedau Anniriaethol	10	984	984	595
Eiddo Tai	11	187,647	187,647	164,411
Eiddo, Peiriannau ac Offer Arall	12	487	487	459
Buddsoddiadau - Benthyciadau Cymorth Prynu Derbyniadwy	13	730	730	766
		189,848	189,848	166,231
